

Wythnos Cymorth Cristnogol

**cymorth
cristnogol**

Mai 15–21

**cymorth
cristnogol**

Mai 15–21

**cymorth
cristnogol**

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog
(Oedfa Gymun)

Ebrill 24

5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Mai 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Mai 8

5.00 p.m.—Dr Huw Tegid Roberts

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 24: Gwasanaethir am
5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Ebrill 22: CIC am 7.00 o'r
gloch.

Dydd Sul, Ebrill 24: Cynhelir yr Oedfa
Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 24: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ebrill 21: Cynhelir Bwrlwm
am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 24: Gwasanaethir am
2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Nos Wener, Ebrill 22: 'Dwylo Pysur'
am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 24: Gwasanaethir am
3.15 o'r gloch gan y Gweinidog. Sylwch
ar y newid amser os gwelwch yn dda.
Bydd hon yn oedfa Fedydd.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ebrill 22: Cynhelir y
Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref,
Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 17

10.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Ebrill 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mai 1

10.00 p.m. - Oedfa
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Myfyr Roberts



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 679: Dydd Sul, 17 Ebrill, 2016

Y record goll

amdanyn nhw fore ddoe.

Gwaetha'r modd, neu ddylwn i ddeud, 'diolch byth', dyw'r record honno ddim ar gael. Fedra' i ddim cofio pa gân a roddwyd ar gof a chadw yn y ciosg bach y diwrnod hwnnw. A deud y gwir, fu hi ddim ar gof na chadw'n hir gan fod y record wedi ei cholli cyn cyrraedd adref. Cymwynas o'r mwyaf yw bod rhai pethau'n mynd ar goll. A chredwch fi, mae record ohonof fi'n canu'n un o'r pethau hynny! Mae hi wedi mynd, byth i ddychwelyd.

A rhan o lawenydd mawr y Cristion yw bod peth tebyg yn wir am y ffordd y mae Duw yn delio â'u pechodau. Fel y dywed y proffwyd Micha yn yr Hen Destament, 'Bydd yn tosturio wrthym eto, ac yn golchi ein camweddau, ac yn taflu ein holl bechodau i eigion y môr' (Micha 7:19). Un o gymwynasau mawr gras Duw yw bod ein pechodau wedi eu maddau, a'u bod wedi eu taflu ymaith, byth i ddychwelyd i'n cyhuddo na'n collfarnu wedyn. Dyna ryfeddod llwyr o gofio mor euog ydym o dorri ei orchmynion ac mor deilwng ydym o gael ein gwrthod ganddo.

Oherwydd gras a chariad Duw, ac am fod yr Arglwydd Iesu wedi dioddef a marw trosom, ddaw ein pechodau fyth yn ôl o eigion y môr mawr, dwfn. Maen nhw wedi mynd am byth am fod Iesu wedi eu cymryd a dwyn y gosb amdanyn nhw yn ein lle. Ddown nhw fyth yn ôl i'n blino na'n cywilyddio na'n barnu. A diolch byth am hynny.

'Diwrnod y Siopau Recordio' oedd hi ddoe, ac roedd rhaglen radio Tudur Owen yn ddwy awr o ddiwanwch ac o wrando ar hen ganeuon a gyhoeddwyd ar recordiau finyl. Dim golwg o'r un caset na CD, a dim un nodyn o unrhyw gasgliad digidol o ganeuon. Dim ond finyl a hen ganeuon cyfarwydd a llai cyfarwydd.

Cyn diwedd y rhaglen fe gofiodd Dyl Mei, un o'r cyflwynwyr, am fodolaeth yr hen flychau oedd yn galluogi pobl i recordio eu lleisiau eu hunain ar record finyl 7-modfedd. Pethau digon tebyg i'r ciosg tynnu lluniau a geir mewn siopau o hyd oedd y rhain. Doedden nhw ddim mor gyffredin â'r blychau lluniau wrth gwrs. Roedd Dyl Mei yn tybio eu bod yn eithaf cyffredin yng Nghymru ar un adeg. Wn i ddim am hynny. Dim ond unwaith y gwelais y fath ddyfais, ac nid yn y Marine Lake yn Y Rhyl nac yn Butlins Pwllheli yr oedd hynny ond ym Manceinion, yng nghanolfan adloniant Belle Vue. Nid yw honno, mwy na'r Marine Lake, yno heddiw, ond mae dau beth yn aros yn y cof o'r unig dro y bûm i ar gyfyl y lle. Yn Belle Vue y bûm i'n chwarae Bowlio 10 gyntaf. Ar y pryd, roedd Bowlio 10 yn rhan o arlwy 'World of Sport' ar ITV ar bnawn Sadwrn, ond hyd y gwn i beth bynnag doedd dim modd chwarae'r gêm yr ochr yma i Glawdd Offa. Ac yn Belle Vue hefyd y gwelais ac y mentrais ddefnyddio'r ciosg recordio, a chael un o'r recordiau finyl 7-modfedd y soniodd Dyl Mei

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Ond yr wyf fi'n ymddiried yn **BEIBL BYW**
dy ffyddlondeb, a chaiff fy
nghalon lawenhau yn dy waredigaeth;
canaf i'r ARGLWYDD, am iddo fod mor
hael wrthyf' (Salm 13:5).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed
bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Huw Tegid Roberts. Bydd
yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd
yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal
aelodau Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r
gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Parchg Emlyn Richards.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Carmel Oedfa Fedydd - Sul nesaf, Ebrill 24

Sylwch os gwelwch yn dda mai am 3.15
o'r gloch y bydd yr oedfa yng nghapel
Carmel, Llanllechid ddydd Sul nesaf,
Ebrill 24. Bydd hon yn oedfa Fedydd.

Casgliad y Genhadaeth

Tua'r adeg yma o'r flwyddyn y gwneir y
casgliad blynyddol yn Capel Coch at
Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys
Bresbyteriaidd Cymru.

Gwneir y casgliad eleni eto, a gobeithiwn
gael y cyfan i law o fewn erbyn heno.

Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys
Mai Roberts neu i'r casgilyddion a fydd
yn dod o amgylch fel arfer. Diolch
ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y
Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi
gwaith cenhadol a wneir gan weithwyr
amrywiol o fewn yr enwad a gwahanol
brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng
Nghymru a thramor.

CIC

Bydd cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch
am 7.00 o'r gloch nos Wener yr wythnos
hon, Ebrill 22.

Oedfa Deulu

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch
fore Sul nesaf, Ebrill 24, bydd dau neu
dri o aelodau staff Coleg y Bala yn dod
atom i sôn am y Cwrs Plant (isod) sydd
i'w gynnal ym mis Mai.

Cwrs Plant yn Y Bala Mai 13-15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros
yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos
Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd
Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd
â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl
blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant
ar gyfer eleni eto.
Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem
ymuno â ni os dydnt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef
plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid
eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed
erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r
Coleg).

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r
plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd
dros y blynyddoedd, ac mae'r plant wedi
mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle
iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob
math o wahanol weithgareddau. Bydd
cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio
yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i
wylfio ffilim yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Swper Cymdeithas Deiniolen

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas
Undebol Deiniolen yn y Clwb Golff yng
Nghaernarfon nos Fawrth, Ebrill 26.
Mae angen archebu bwyd mor fuan â
phosibl.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Mai 15-21
2016

Fedrwch chi helpu efo'r
casgliadau eleni?

Gwerthu Capel Coch

Wedi blynyddoedd o ansicrwydd, gallwn
gyhoeddi fod Capel Coch wedi ei werthu
o'r diwedd. Fe gafodd y pryniant ei
gwblhau yr wythnos ddiwethaf.

Fel y soniwyd y Sul diwethaf, bwriad y
perchennog newydd yw troi'r capel yn
dŷ. Mae'n dda deall ei fod yn gobeithio
bydd y berthynas rhyngom fel eglwys ac
yntau yn berthynas dda a hapus.

Byddwn yn cadw'r festri wrth gwrs, a'r
bwriad fydd gwella rhywfaint ar y festri
er mwyn hwyluso'r gwaith a'r addoliad.
Bydd angen trafod y gwaith hwnnw yn
fanwl dros yr wythnosau nesaf.

Diolch yn arbennig unwaith eto i'r
Trysorydd, Colin Jones, sydd wedi dwyn
y baich trymaf o ran yr holl drafodaethau
gyda'r cyfreithwyr a'r penseiri ac ati
wrth gwblhau'r gwerthiant.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir y Cyfarfod Chwarter nesaf yng
nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00
o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 27. Ceir
anerchiad gan Lywydd preennol Undeb
yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchg Ddr
R Alun Evans, Caerdydd. Bydd croeso
cynnes i bawb.